# Rhaglen Gyflawn

**Gwasanaethau Democrataidd**
Swyddfa'r Cyngor
CAERNARFON
Gwynedd
LL55 1SH

Cyfarfod

**PWYLLGOR CRAFFU GOFAL**

Dyddiad ac Amser

**10.30 y.b., DYDD IAU, 21AIN TACHWEDD, 2024**

NODER: CYNHELIR SESIWN BRIFFIO I'R AELODAU AM 10:00YB

Lleoliad

**Cyfarfod Hybrid - Siambr Hywel Dda, Swyddfa'r Cyngor, Caernarfon LL55 1SH ac yn rhithiol drwy Zoom**

*** NODER ***

**Bydd y cyfarfod yn cael ei we-ddarlledu**

**https://gwynedd.public-i.tv/core/l/cy_GB/portal/home**

Pwynt Cyswllt

**Sioned Mai Jones**

**01286 679665**

**SionedMaiJones@gwynedd.llyw.cymru**

(Dosbarthwyd Dydd Mercher, 13 Tachwedd 2024)

# PWYLLGOR CRAFFU GOFAL

## AELODAETH (18)

## Plaid Cymru (12)

Y Cynghorwyr

Menna Baines
Rheinallt Puw
Linda Ann Jones
Gwynfor Owen
Einir Wyn Williams
Sedd Wag

R Medwyn Hughes
Dewi Jones
Linda Morgan
Meryl Roberts
Jina Gwyrfai
John Pughe

## Annibynnol (5)

Y Cynghorwyr

Elwyn Jones
Eryl Jones-Williams
Angela Russell

Anwen J. Davies
Beth Lawton

## Llafur/Rhyddfrydol (1)

Y Cynghorydd
Gareth Coj Parry

## Aelodau Ex-officio

Cadeirydd ac Is-Gadeirydd y Cyngor

## Aelodau Eraill a Wahoddwyd

Y Cynghorydd Craig ab Iago

# R H A G L E N

## 1. YMDDIHEURIADAU

Derbyn unrhyw ymddiheuriadau am absenoldeb.

## 2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Derbyn unrhyw ddatganiadau o fuddiant personol.

## 3. MATERION BRYS

Nodi unrhyw eitemau sy'n fater brys ym marn y Cadeirydd fel y gellir eu hystyried.

## 4. COFNODION 4 - 14

Bydd y Cadeirydd yn cynnig y dylid llofnodi cofnodion y cyfarfod blaenorol o'r pwyllgor hwn, a gynhaliwyd ar y 26 Medi 2024, fel rhai cywir.

## 5. Y MAES TAI CYMDEITHASOL 15 - 20

a) I ystyried yr adroddiad ar y Maes Tai Cymdeithasol
b) Cwestiynau i'w gofyn i'r Cymdeithasau Tai (Adra, Clwyd Alyn, Grŵp Cynefin a Thai Gogledd Cymru)

**PWYLLGOR CRAFFU GOFAL**
**26/09/24**

**Presenoldeb:**

**Y CYNGHORWYR:**
Beth Lawton (Cadeirydd), Menna Baines, Jina Gwyrfai, R. Medwyn Hughes, Dewi Jones, Elwyn Jones, Eryl Jones-Williams, Gwynfor Owen, Gareth Coj Parry, Rheinallt Puw, Meryl Roberts, Anwen Jane Davies ac Einir Wyn Williams.

**Swyddogion yn bresennol:**
Llywela Haf Owain (Uwch Ymgynghorydd Iaith a Chraffu) a Rhodri Jones (Swyddog Gwasanaethau Democratiaeth).

**Yn bresennol ar gyfer Eitem 5:**
Cynghorydd Dilwyn Morgan (Aelod Cabinet Oedolion, Iechyd a Llesiant), Aled Davies (Pennaeth Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant), Meilys Heulfryn Smith (Pennaeth Cynorthwyol Cefnogi Cymunedau, Iechyd a Llesiant) a Siân Edith Jones (Pennaeth Cynorthwyol Gwasanaethau Oedolion).

**Yn bresennol ar gyfer Eitem 6:**
Cynghorydd Dilwyn Morgan (Aelod Cabinet Oedolion, Iechyd a Llesiant), Aled Davies (Pennaeth Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant) ac Siân Edith Jones (Pennaeth Cynorthwyol Gwasanaethau Oedolion).

**Yn bresennol ar gyfer Eitem 7:**
Cynghorydd Dilwyn Morgan (Aelod Cabinet Oedolion, Iechyd a Llesiant) a'r Cynghorydd Elin Walker Jones (Aelod Cabinet Plant a Theuluoedd), Aled Davies (Pennaeth Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant), Dafydd Paul (Pennaeth Cynorthwyol Diogelu ac Ansawdd, Adran Plant a Chefnogi Teuluoedd) ac Mannon Emyr Trappe (Pennaeth Cynorthwyol Diogelu, Sicrwydd Ansawdd, Iechyd Meddwl a Diogelwch Cymunedol yr Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant).

**Yn bresennol ar gyfer Eitem 8:**
Cynghorydd Dilwyn Morgan (Aelod Cabinet Oedolion, Iechyd a Llesiant) ac Aled Davies (Pennaeth Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant) a Meilir Price Owen (Rheolwr Prosiect, Tîm Arweinyddiaeth Corfforaethol).

**1. YMDDIHEURIADAU**

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan y Cynghorwyr Angela Russell a Linda Anne Jones.

**2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL**

Derbyniwyd datganiad o fuddiant personol gan y Cynghorydd Rheinallt Puw ar gyfer Eitem 6. Nid oedd yn fuddiant a oedd yn rhagfarnu ac ni adawodd y cyfarfod ar gyfer y drafodaeth.

Derbyniwyd datganiad o fuddiant personol gan y Cynghorydd Eryl Jones-Williams ar gyfer Eitem 8. Nodwyd ei fod yn fuddiant sy'n rhagfarnu ac fe adawodd y cyfarfod ar gyfer yr eitem.

3. **MATERION BRYS**

Dim i’w nodi.

4. **COFNODION**

Llofnododd y Cadeirydd gofnodion y cyfarfod blaenorol o’r pwyllgor hwn a gynhaliwyd ar 13 Mehefin, 2024 fel rhai cywir.

5. **GWASANAETH GOFAL CARTREF**

Cyflwynwyd adroddiad gan yr Aelod Cabinet Oedolion, Iechyd a Llesiant, Pennaeth Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant, Pennaeth Cynorthwyol Cefnogi Cymunedau, Iechyd a Llesiant a’r Pennaeth Cynorthwyol Gwasanaethau Oedolion.

Eglurwyd bod cyfres o newidiadau ar y gweill o fewn y maes gofal cartref ar hyn o bryd. Cydnabuwyd bod rhai materion angen sylw ers peth amser ond cadarnhawyd eu bod yn cael eu gweithredu erbyn hyn. Esboniwyd bod yr addasiadau hyn yn cael eu cyflwyno rŵan yn unol ag adolygiad Ffordd Gwynedd. Nodwyd bod swyddogion yn edrych ar y gwasanaethau o bersbectif dinesydd er mwyn asesu os yw gwasanaethau yn effeithiol neu beidio.

Datganwyd bod cytundeb a fabwysiadwyd gyda darparwyr allanol, sydd wedi ei fabwysiadu ers Tachwedd 2022, yn gweithredu dull newydd o weithio. Nodwyd bod pob darparwr yn cydweithio yn effeithiol gyda’r gweithwyr cymdeithasol a’r cymunedau ehangach er mwyn cynnig gofal cartref o’r radd flaenaf i ddefnyddwyr. Cymharwyd hyn gyda’r model gweithio blaenorol ble nad oedd cymaint o gydweithio ac roedd gofyn i ddarparwyr gofal cartref weithio ar ffurf undonog er mwyn darparu gofal yr un amser o’r dydd heb wir ystyried addasiadau i amserlen y defnyddiwr. Pwysleisiwyd bod y model presennol yn caniatáu i weithwyr fagu perthynas gyda defnyddwyr a bod modd llwyddo i ddatrys unrhw broblem neu angen sydd angen ei gyfarch yn haws, gyda chymorth partneriaid.

Er hyn, cydnabuwyd bod addasu patrymau gwaith rhwng y ddau fodel uchod yn heriol a chadarnhawyd bod yr adran yn parhau i fod yn y cyfnod trosglwyddo hynny ar hyn o bryd. Sicrhawyd bod gweithwyr o’r farn bod eu telerau gwaith wedi newid er gwell yn y blynyddoedd diwethaf  a nodwyd bod dechrau gweithredu’r model newydd o weithio wedi arwain at gydweithrediad gwell mewn hybiau cymunedol yn rhoi gwerth cymunedol ychwanegol o’r cytundebau. Rhannwyd enghreifftiau o sut mae telerau gwaith wedi gallu cael eu haddasu megis newid mewn dyddiau gwyliau a chostau teithio ac addasiadau i batrymau shifft. Cydnabuwyd bod rhai gweithwyr  o’r farn eu bod ar eu pen eu hunain ac nad ydynt yn teimlo yn rhan o benderfyniadau perthnasol ac felly sicrhawyd bod yr Adran yn parhau i ganfod ffyrdd newydd o gyflwyno syniadau a chyfathrebu gyda gweithwyr er mwyn sicrhau mewnbwn.

Cadarnhawyd bod pob cytundeb allanol bellach gyda’r trydydd sector neu deuluoedd trydydd sector bychan. Pwysleisiwyd nad oes arian yn cael ei wario y tu hwnt i ardal leol y Sir.

Mewn ymateb i ymholiad ar addasiadau i systemau TGCh, cadarnhaodd y Pennaeth Cynorthwyol Cefnogi Cymunedau, Iechyd a Llesiant bod angen addasu 4 o systemau’r gwasanaethau gofal cartref oherwydd y newid i fodel gweithio. Eglurwyd bod systemau presennol y gwasanaeth yn dilyn yr hen fodel gweithio ac mae angen eu haddasu er mwyn sicrhau bod trefniadau cynllunio gofal, trefnu oriau staff a chofnodi symudedd defnyddwyr yn cael eu llunio yn dilyn y model newydd o weithio. Nodwyd bod y gwaith

o edrych i mewn i addasu'r systemau hyn yn dechrau'n fuan gan Athro o Brifysgol Abertawe a disgwylir i'r canfyddiadau gael eu cyhoeddi erbyn mis Mawrth 2025.

Esboniwyd bod trafferthion darpariaeth gofal cartref yn fwy heriol mewn rhai ardaloedd nag eraill. Ymhelaethwyd bod oddeutu tri o ardaloedd gyda niferoedd uchel ar y rhestr aros am ofal cartref a thrafferthion recriwtio dros y ddwy flynedd ddiwethaf. Nodwyd bod swyddogion wedi ymchwilio i unrhyw batrymau posib i'r diffygion hyn ond nodwyd nad oes patrymau rhwng darparwyr mewnol allanol nac chwaith patrymau daearyddol. Fodd bynnag, pwysleisiwyd bod 5 neu lai o unigolion yn aros am ofal cartref yn y mwyafrif llethol o ardaloedd y Sir.

Cyhoeddwyd bod Bwrdd Prosiect mewnol newydd wedi cael ei sefydlu o dan arweiniad Pennaeth yr Adran Oedolion Iechyd a Llesiant. Anogwyd unrhyw aelod i gysylltu gyda'r swyddogion gydag unrhyw ymholiad ynglŷn â'r pwnc hwn.

Yn ystod y drafodaeth, cyflwynwyd y sylwadau a ganlyn:-

Atgoffwyd yr Aelodau o'r ymrwymiad a roddwyd i weithwyr gofal y Cyngor yn y cyfnod cyn y cytundebau cyfredol, y byddai modd iddynt barhau i weithio i'r Cyngor mewn ardal gyfagos i'w safle gwaith presennol, os oedd y cytundebau newydd yn arwain at newid mewn rheolaeth gofal cartref a olygai bod eu safle gwaith presennol yn cael ei drosglwyddo i ddarparwr allanol. Nodwyd hefyd byddai'r gweithwyr hynny wedi gallu symud i weithio i'r darparwyr allanol os oeddent yn dymuno.

Eglurodd y Pennaeth Cynorthwyol Cefnogi Cymunedau, Iechyd a Llesiant bod y cwmni allanol wedi methu recriwtio digon o weithwyr mewn rhai ardaloedd i gyfarch y gofyn am wasanaeth felly mae'r Cyngor wedi parhau i gynnig gwasanaethau. Mynegwyd balchder bod darpariaeth gofal cartref wedi gallu parhau i gael ei ddarparu yn yr ardaloedd hynny ond nodwyd bod hyn hefyd yn cael effaith ar ardaloedd cyfagos sydd yn gweithredu gyda llai o weithwyr nes bod y trafferthion recriwtio wedi cael ei ddatrys. Pwysleisiwyd nad oes un trefniant arferol ar gyfer datrys trafferthion o'r fath mewn cymunedau ac nodwyd bod swyddogion a phartneriaid yn edrych ar y farchnad yn gyson er mwyn ceisio canfod datrysiadau i broblemau sydd yn codi. Ymhelaethwyd bod staff yn cael sgyrsiau cyson gyda swyddogion er mwyn nodi unrhyw bryderon a'u datrys mor fuan â phosib.

Yn dilyn yr ymateb, gofynnwyd a yw'r Cyngor wedi arbed arian drwy'r addasiadau hyn ynteu a yw'r costau o ddarparu gofal cartref yn uwch i'r Adran erbyn hyn. Mewn ymateb pellach, cadarnhaodd Pennaeth yr Adran nad yw'r rhaniad o ganran traws sirol o bwy sydd yn darparu'r gwasanaeth gofal cartref wedi newid llawer. Eglurwyd bod y Cyngor, sector breifat a'r trydydd sector yn gweithredu o fewn ardaloedd penodol o fewn y Sir yn hytrach na chydweithio gyda'i gilydd ar draws y Sir yn ei gyfanrwydd fel rhan o'r model newydd. Rhannwyd barn bod hyn wedi rhoi mwy o gyfleoedd i'r trydydd sector i weithredu o fewn y Sir ac roedd y Cyngor yn awyddus i weld hynny. Manylwyd ar arbedion a wnaed yn sgil y newid hwn gan nodi nad oes arbedion sylweddol wedi eu cyflawni hyd yma yn uniongyrchol. Eglurwyd bod cynnydd cychwynnol wrth ddechrau gweithredu'r model ond bod gan yr Adran gynlluniau a phrosesau i sicrhau arbediad dros y cyfnod nesaf. Pwysleisiwyd nad arbedion ariannol oedd yn gyrru'r newidiadau hyn i'r model gweithio ond sicrhau mai defnyddwyr gwasanaeth a'u hanghenion sydd yn ganolog i'r trefniadau.

Ymhelaethwyd bod heriau ariannol o fewn y system bresennol a phwysleisiwyd bod swyddogion yn cydweithio gydag Archwilio Cymru er mwyn sicrhau bod systemau ariannol tynn yn cael eu sefydlu. Cadarnhawyd bod y gost o ddarparu gofal cartref yn fewnol gan y Cyngor yn cael ei fonitro'n barhaus. Hyderwyd bydd dilyn y camau hyn yn lleihau'r costau gorwariant sydd yn y maes ar hyn o bryd. Tynnwyd enghreifftiau ble mae

rhai gwasanaethau wedi trawsffurfio i'r model newydd yn rhwydd ond nodwyd bod rhai gwasanaethau yn cael trafferthion i fabwysiadu newid mewn gweithdrefnau. Sicrhawyd bod yr Adran yn ei gyfanrwydd yn asesu'r gofal a ddarparwyd yn fewnol ac yn allanol er mwyn sicrhau bod trafferthion ariannol yn cadw o fewn rheolaeth ac i sicrhau llai o wariant a mwy o arbediad yn y maes hwn yn y dyfodol agos.

Mewn ymateb i ymholiad a phryderon am ardal Tywyn a nodwyd yn yr adroddiad, cadarnhaodd y Pennaeth Cynorthwyol Cefnogi Cymunedau, Iechyd a Llesiant bod 24 unigolion yn aros am ofal yn yr ardal hon. Adroddwyd bod hyn yn 20% o'r galw am wasanaeth gofal cartref yn yr ardal honno. Eglurwyd bod oddeutu 8800 o oriau gofal yn cael eu diwallu yn Sirol ond bod oddeutu 920 o oriau heb eu diwallu. Nodwyd y golyga hyn bod oddeutu 10% sydd yn gofyn am ofal cartref ddim yn derbyn darpariaeth ar hyn o bryd a phwysleisiwyd ei fod yn bryder i'r Adran. Pwysleisiwyd bod yr Adran wedi addasu eu systemau casglu data yn y cyfnod diwethaf er mwyn amlygu pan fydd gwybodaeth gwahanol basau data yn anghyson er mwyn gallu ymchwilio i'w ddeall, ac mae hyn wedi arwain at restrau aros byrrach yn gyffredinol yn y Sir ac yn yr ardal benodol hon. Cydnabuwyd bod pegynnau ble mae rhai ardaloedd yn gweld rhestrau aros mwy nac eraill. Pwysleisiwyd y cynhaliwyd cyfarfod grŵp gofal cartref yn yr ardal yn ddiweddar er mwyn casglu syniadau ar sut i fynd i'r afael a'r diffyg hwn megis addasu oriau gwaith, cydweithio gyda'r hybiau cymunedol lleol ac ati. Cyfeiriwyd hefyd at y ffaith bod hyfforddiant staff a magu sgiliau hanfodol yn allweddol i gyfarch y galw am gwasanaethau hyn. Mynegwyd balchder bod y model newydd yn llwyddiant yn yr ardal hon cyn ymrwymo i'r contractau a gobeithiwyd y gellir datrys y diffyg mor fuan â phosib.

Tynnwyd sylw bod Gwynedd yn darparu mwy o ofal cartref fesul 100,000 o'r boblogaeth na'r mwyafrif o siroedd Cymru. Mewn ymateb i hyn, cadarnhaodd y Pennaeth Adran nad oedd hyn yn rhywbeth cadarnhaol ei natur o reidrwydd. Manylwyd bod hyn yn arwydd bod Gwynedd yn gor-ddarparu gwasanaethau gofal cartref a gobeithir bydd y model newydd hyn yn arwain at newid yn yr ystadegyn hwn i'r dyfodol.

Tynnwyd sylw at digwyddiad codi ymwybyddiaeth diweddar ar daliadau uniongyrchol a gynhaliwyd yn ardal Porthmadog. Ystyriwyd byddai gwneud defnydd o'r trefniadau hyn yn lleihau'r rhestrau aros am ofal cartref wrth gefnogi unigolion sydd wedi addasu eu ffordd o fyw er mwyn darparu gofal i'w hanwyliaid oherwydd nad oes digon o ofalwyr ar gael o fewn y Sir i gwblhau'r gwaith. Mewn ymateb i'r sylwadau, cadarnhaodd y Pennaeth Cynorthwyol Cefnogi Cymunedau, Iechyd a Llesiant bod gwaith sylweddol yn mynd rhagddo i ddatblygu'r gwasanaeth hwn ac ei fod yn broses cymhleth iawn. Ymhelaethwyd bod yr Adran yn cydweithio gyda cwmni 'Community Catalysts', ac wedi sefydlu Swyddog Catalydd yn fewnol er mwyn cefnogi unigolion o fewn cymunedau'r Sir sydd â diddordeb sefydlu busnesau bychan sy'n cynnig gofal – ac yn cael eu talu drwy system taliadau uniongyrchol. Adroddwyd bod 17 o fenterau bychan wedi cael eu sefydlu hyd yma ac mae mwy yn y broses o gael eu datblygu ar hyn o bryd. Cydnabuwyd nad oes modd darparu taliadau uniongyrchol i unigolion sydd yn byw gyda'r unigolyn sydd yn derbyn gofal oherwydd cyfyngiadau statudol ond anogwyd teuluoedd i gael sgwrs gyda darparwyr gofal a gweithwyr cymdeithasol am yr her hon os mai dyma'r brif elfen pam nad yw ungolion yn defnyddio'r gwasanaethau.

Diolchwyd i'r Adran am gyflwyno Adroddiad gonest gyda gwybodaeth glir am lwyddiannau a heriau sy'n codi o fewn y maes. Gofynnwyd am wybodaeth am niferoedd darparwyr gofal sydd yn gallu darparu gofal drwy gyfrwng y Gymraeg. Eglurwyd bod hyn yn her o fewn yr Adran ac nid yw'r ffigyrau o siaradwyr Cymraeg mor uchel a dymunir iddynt fod. Ymhelaethwyd bod yr Adran yn cefnogi staff gyda hyfforddiant iaith ond nodwyd ei fod yn her gyffredinol.

Mewn ymateb i sylwadau ar gefnogaeth i weithwyr, cadarnhaodd y Pennaeth Cynorthwyol Cefnogi Cymunedau, Iechyd a Llesiant bod Bwrdd Prosiect wedi cael ei sefydlu o fewn yr Adran er mwyn mynd i'r afael â'r materion sydd angen sylw yn nhyb y timoedd a darparwyr gwasanaeth. Ymhelaethwyd bod y Bwrdd Prosiect (a'r Cyngor yn gyffredinol) yn derbyn cefnogaeth allanol i wireddu amcanion drwy brosiect IMPACT (Improving Adults Care Together). Nodwyd bod y prosiect hwn yn cefnogi gweithwyr o'r run meysydd ac yn rhannu arferion da fel bod pawb dros Gymru a Lloegr yn ymwybodol o ba fath o systemau sydd yn gweithio a sut gellir gwella.

Cyfeiriwyd at holiadur PERCY sydd yn asesu ansawdd bywyd defnyddwyr gwasanaeth gofal er mwyn sicrhau eu bod yn teimlo bod pwrpas i'w bywyd a bod eu lles yn gwella. Mewn ymateb i'r sylwadau, cadarnhaodd y Pennaeth Cynorthwyol Cefnogi Cymunedau, Iechyd a Llesiant bod grŵp prosiect wedi ei sefydlu i edrych i mewn i'r holiadur er mwyn gweld os byddai'n fuddiol i ddefnyddwyr gofal cartref yng Ngwynedd.

Diolchwyd i'r swyddogion a'r holl weithwyr gofal am eu gwaith caled o fewn y maes.

**PENDERFYNWYD**

**Derbyn yr adroddiad gan:**

1. **Nodi pryder am y rhestrau aros am ofal cartref mewn rhai ardaloedd y Sir.**
2. **Gofyn am ddata am y rhestrau aros ar draws y Sir er mwyn gallu cymharu ardaloedd yn haws.**
3. **Gofyn i'r Aelod Cabinet ddiweddaru'r Pwyllgor ar waith y Prosiect Gofal Cartref gan gynnwys gwybodaeth am leihau costau a gwella ansawdd data.**

**6. TRAFNIDIAETH I RAI SYDD GYDA DEMENTIA I FYNYCHU GOFAL DYDD**

Cyflwynwyd adroddiad gan yr Aelod Cabinet Oedolion, Iechyd a Llesiant, Pennaeth Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant, Pennaeth Cynorthwyol Cefnogi Cymunedau, Iechyd a Llesiant a'r Pennaeth Cynorthwyol Gwasanaethau Oedolion.

Yn ystod y drafodaeth, cyflwynwyd y sylwadau a ganlyn:-

Adroddwyd bod yr holl weithwyr o fewn y maes hwn yn cydymffurfio â gofynion statudol Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant.

Atgoffwyd bod disgwyliad i weithwyr adnabod deilliannau unigolion yn ogystal a'r dull orau o ddarparu gofal chefnogaeth iddynt. Nodwyd yr ystyrir adnoddau personol unigolion, cefnogaeth teuluol, lefel annibyniaeth, rhwydweithiau cefnogol lleol ac ystyriaethau ariannol.

Eglurwyd y ddarpariaeth gofal dydd mwyaf cyffredin gan fanylu bod tair darpariaeth o fewn Gwynedd. Nodwyd bod y rhain wedi eu lleoli yn Llys Cadfan (Tywyn), Plas Hedd (Bangor) a Phlas y Don (Pwllheli). Ymhelaethwyd mai Plas Hedd sy'n darparu gofal dydd i'r nifer uchaf o unigolion sy'n byw gyda dementia a gydag anghenion dydd, gyda 5 unigolyn yn mynychu ar gyfer gwasanaeth arbenigol deuddydd yr wythnos. Cadarnhawyd bod 10 unigolyn yn derbyn gwasanaeth ym Mhlas Hedd gyda dau aelod o staff yn gofalu amdanynt. Adroddwyd bod 4 unigolyn yn derbyn gwasanaeth gofal dydd ym Mhlas y Don a 3 unigolyn yn Llys Cadfan. Cydnabuwyd bod llai o unigolion yn defnyddio'r gwasanaeth yn yr ardaloedd hyn ond teimlwyd nad oedd hyn oherwydd rhesymau trafnidiaeth. Tynnwyd sylw bod gwasanaethau yn cael eu darparu mewn

cartrefi preswyl eraill ym meddiant y Cyngor ond nodwyd bod y rhain yn cael eu cynnal ar sail achlysurol.

Cadarnhawyd mai'r teuluoedd sydd yn cludo'r unigolion hyn i'r ddarpariaeth gofal dydd oherwydd bod cyflyrau yn rhy ddwys er mwyn gallu defnyddio tacsi yn annibynnol, ond nodwyd bod rhai achosion ble mae tacsi yn cael eu defnyddio.

Pwysleisiwyd nad yw'r staff wedi derbyn cwyn am ddiffyg trafnidiaeth ac nid oes newidiadau amlwg mewn niferoedd mynychu oherwydd materion trafnidiaeth.

Nodwyd bod yr Adran yn cydweithio gyda'r gwasanaethau Iechyd yn gyson iawn. Ymhelaethwyd bod y gwasanaeth Iechyd yn cynnal gwasanaethau gofal dydd arbenigol ym Mhen Llŷn yn bennaf ac yn ne Meirionnydd ar rai prydiau. Ymhelaethwyd bod 10-15 o unigolion yn mynychu darpariaeth gofal dydd (hyd at 33 unigolion yr wythnos am wasanaeth sydd yn cael ei gynnal dau ddiwrnod yr wythnos) ac maent yn annog pob unigolyn i wneud trefniadau cludiant eu hunain. Eglurwyd eu bod yn gwneud hyn oherwydd mai'r safle mwyaf addas ar gyfer y ddarpariaeth o fewn yr ardaloedd yw Bryn Beryl ac ystyrir trafnidiaeth ysbyty i fod yn annibynadwy. Pwysleisiwyd bod y gwasanaeth Iechyd yn annog teulu i ddarparu cludiant neu ddibynnu ar gludiant cymdeithasol megis O Ddrws I Ddrws neu Cymro. Adroddwyd bod staff Hafod Hedd (Bryn Beryl) yn gweld cynnydd yn niferoedd unigolion sydd yn mynychu ac nid ydynt yn ymwybodol am unrhyw nad sydd yn mynychu oherwydd trafferthion trafnidiaeth.

Adroddwyd ar wasanaethau eraill sydd ar gael i unigolion sydd yn byw â dementia, sydd hefyd yn cynnig seibiant i ofalwyr di-dâl. Nodwyd bod gwasanaeth Dementia Actif yn gefnogaeth ataliol sy'n cefnogi nifer o unigolion a'u teuluoedd. Esboniwyd bod y gwasanaeth yn cael ei gynnal ar gyfer unigolion gydag ystâd eang o anghenion ac yn cynnal dosbarthiadau ymarfer corff hwyliog a chymdeithasol. Eglurwyd bod y gwasanaeth yn cydweithio gyda nifer o hybiau cymunedol ac yn derbyn mynychwyr newydd yn gyson. Nodwyd bod y gwasanaeth yn cynnig trafnidiaeth i'r gweithgareddau am gost rhesymol.

Mynegwyd balchder o dderbyn grant cyllideb ICF gan Lywodraeth Cymru sydd wedi arwain at benodi 5 o Weithwyr Cefnogol Dementia. Esboniwyd bod y gweithwyr hyn yn darparu gofal arbenigol un i un yng nghartrefi'r unigolion gan amlaf gyda dementia dwys pan nad yw darpariaeth gofal dydd mewn canolfan neu gartref preswyl yn addas ar eu cyfer. Adroddwyd eu bod yn cefnogi rhwng 5 a 10 o unigolion yr un ar wasanaeth 9-5 o Ddydd Llun i Ddydd Gwener. Ychwanegwyd hefyd eu bod yn cludo unigolion i weithgareddau dydd yn y gymuned pan yn addas os nad oes cefnogaeth arall ar gael. Tynnwyd sylw hefyd at Eryri Cydweithredol, sy'n wasanaeth cyffelyb a gaiff ei gomisiynu gan y Cyngor ar gyfer unigolion ble nad ydi'n addas i unigolion fynychu gweithgareddau dydd.

Amlygwyd rhai o'r rhwystrau wrth ystyried cludiant i wasanaethau megis yr angen i'r cerbydau fod yn addas ac diogel i ddefnyddwyr. Cadarnhawyd bod swyddogion yn ymwybodol o ddiffyg trafnidiaeth ers blynyddoedd gan nad yw bws mini neu dacsi yn opsiwn addas mewn nifer o achosion yn ogystal ag unigolion gyda ymddygiad heriol ar adegau yn deillio o'r cyflwr. Pwysleisiwyd bod timoedd yn nodi ei fod yn anodd canfod cwmni sydd yn fodlon gwneud y gwaith cludo hwn ar ran y Cyngor ac mae'r gwasanaethau a ddarperir gan gwmnïau preifat os ydynt yn cytuno, yn gallu bod yn ddrud iawn. Ychwanegwyd bod angen i gerbydau cludiant bod wedi eu addasu mewn rhai achosion er mwyn sicrhau bod unigolion yn trafeilio yn ddiogel ac felly credir mai'r teulu yw'r dull mwyaf addas o ddarparu trafnidiaeth mewn nifer fawr o achosion.

Rhoddwyd ystyriaeth i faterion ariannol gan nodi bod ffi o £4 ar gyfer darpariaeth gofal dydd, sy'n cael ei ddefnyddio er mwyn cyfrannu at gostau arlwyo. Esboniwyd nad oes cais am gyfraniad er mwyn ariannu'r gofal. Ymhelaethwyd bod cefnogaeth lles ariannol yn cael ei ddarparu i unrhyw un sydd yn nodi pryderon drwy'r gwasanaeth Incwm a Lles.

Annogwyd yr Aelodau i ddod i gyswllt gyda'r Adran os ydynt yn ymwybodol am unrhyw un sydd yn dymuno mynychu gwasanaethau gofal dydd ond yn wynebu heriau trafnidiaeth er mwyn sicrhau datrysiad a mynediad at wasanaethau.

Yn ystod y drafodaeth, cyflwynwyd y sylwadau a ganlyn:-

Ystyriwyd bod y niferoedd o unigolion sy'n byw gyda dementia ac sydd yn mynychu gwasanaeth gofal dydd yn isel. Mewn ymateb i'r sylwad, ychwanegodd Pennaeth Cynorthwyol Gwasanaethau Oedolion nad yw teithio i ganolfan ar gyfer gwasanaeth yn ddeniadol i unigolion erbyn hyn a bod llawer mwy o unigolion yn dymuno derbyn gofal sydd wedi ei deilwra iddynt yn eu cartref eu hunain.

Mewn ymateb i ymholiad am restrau aros ar gyfer y gwasanaethau gofal dydd, cadarnhaodd Pennaeth Cynorthwyol Gwasanaethau Oedolion bod pawb sydd yn gofyn am y gwasanaeth yn ei dderbyn ar hyn o bryd ac nid oes unrhyw un yn aros am ofal.

Nodwyd nad yw gofalwyr di-dal yn cael gymaint o ysbaid gan ei bod yn danfon eu hanwyliaid i'r gweithgareddau yn hytrach na derbyn cludiant. Ychwnegodd yr Aelod Cabinet bod croeso i anwyliaid y defnyddwyr gwasanaeth i fynychu'r gweithgareddau hefyd, gan rannu enghreifftiau o achosion ble mae hyn wedi bod yn llwyddiannus iawn.

Ategwyd byddai anwyliaid yn fodlon talu mwy na £4 am ofal safonol i unigolion sydd â dementia a dylid edrych i mewn i gynyddu'r ffioedd hynny. Ymhellach, gwnaed sylw bod angen sicrhau bod unigolion yn derbyn y budd-daliadau cywir a phriodol er mwyn sicrhau bod ganddynt yr arian i dalu am eu gofal pan mae ffi yn ddyledus.

Mewn ymateb i ddatblygu Polisi Trafnidiaeth, cadarnhaodd Pennaeth Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant bod y polisi hwn ar y gweill yn fuan. Ymhelaethwyd mai'r bwriad yw ceisio ei ddatblygu er mwyn i'r polisi fod yn weithredol o Ebrill 2025 ymlaen ac mae gwaith yn mynd rhagddo er mwyn cyflawni'r targedau hwnnw.

Cyfeiriwyd at heriau i ddarparu gwasanaethau ar hyd a lled y sir gan nodi bod pellter o'r gwasanaethau yn gallu ysgogi unigolion a'u hanwyliaid i beidio mynychu gwasanaethau.

Mewn ymateb i ymholiad, cadarnhaodd Pennaeth Cynorthwyol Gwasanaethau Oedolion y blaenoriaethir cynnal ymgynghoriad ar y gwasanaethau dydd ond nodwyd nad oes amserlen penodol i gynnal yr ymgynghoriad hwn ar hyn o bryd.

**PENDERFYNWYD**

1. **Derbyn yr adroddiad gan nodi'r sylwadau a gyflwynwyd yn ystod y drafodaeth.**
2. **Datgan pryder nad yw'r ddarpariaeth yn gyson ar draws y Sir a phwysleisio pwysigrwydd rhoi egwyl i ofalwyr di-dâl.**
3. **Gofynnwyd am adroddiad pellach am yr adolygiad Polisi Trafnidiaeth ac adolygiad Gofal Dydd er mwyn i'r Aelodau roi mewnbwn amserol.**

**7. ADRODDIAD BLYNYDDOL AR Y WEITHDREFN CWYNION, YMHOLIADAU A DIOLCHIADAU'R ADRAN PLANT A CHEFNOGI TEULUOEDD AC ADRAN OEDOLION, IECHYD A LLESIANT AR GYFER 23-24**

Cyflwynwyd yr adroddiad gan yr Aelod Cabinet Oedolion, Iechyd a Llesiant, Aelod Cabinet Plant a Theuluoedd, Pennaeth Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant, Pennaeth Cynorthwyol Diogelu ac Ansawdd (Adran Plant a Chefnogi Teuluoedd), Pennaeth Cynorthwyol Diogelu, Sicrwydd Ansawdd, Iechyd Meddwl a Diogelwch Cymunedol yr Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant.

Atgoffwyd yr aelodau bod cyfrifoldeb statudol ar y Cyngor i adrodd ar sut y mae'n ymchwilio ac yn ymateb i gwynion yn unol â'r Rheoliadau Gweithdrefn Gwynion y Gwasanaethau Cymdeithasol (Cymru) 2014 a Rheoliadau Gweithdrefn Sylwadau (Cymru) 2014. Esboniwyd bod y trefniadau hyn ar gyfer gwasanaethau cymdeithasol yn wahanol i'r system gwynion cyffredinol sy'n cael ei weithredu o fewn y Cyngor.

Cadarnhawyd bod yr Adroddiad yn rhannu gwybodaeth am yr Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant yn ogystal a'r Adran Plant a Chefnogi Teuluoedd mewn ymgais i sicrhau bod yr un trefniadau mewn lle ar gyfer y ddwy adran.

Eglurwyd bod criteria penodol yn cael ei ddefnyddio er mwyn nodi pa ddigwyddiadau sy'n briodol ymateb iddynt. Nodwyd bod y rhain fel rheol yn wasanaethau sydd wedi cael ei ddarparu hyd at 12 mis cyn i'r cwyn gael ei gyflwyno, yn hytrach na materion hanesyddol.

Ymhelaethwyd bod trefn Cam 1 yn fodd o geisio datrys y cwynion drwy dderbyn ymateb y rheolwr tîm a chynnal sgyrsiau uniongyrchol gyda'r achwynwyr. Cadarnhawyd os nad yw hyn yn datrys y sefyllfa, mae gan achwynwyr hawliau i ofyn am archwiliad fel rhan o drefniadau Cam 2. Pwysleisiwyd bod y rhain yn cael eu cynnal gan archwilwyr sydd yn annibynnol o'r Cyngor ond sydd yn unigolion sydd ar restr gydnabyddedig. Eglurwyd bod modd i achwynwyr gychwyn y broses ar Cam 2 heb fynd drwy Gam 1 gan nodi mai dyma yw'r tueddiad erbyn hyn, yn enwedig gydag achosion Plant a Theuluoedd. Nodwyd os nad oes modd i'r mater gael ei ddatrys yn dilyn archwiliad, bod modd ei uchafu i'r Ombwdsman. Er hyn, pwysleisiwyd nad oes yr un mater wedi mynd ymlaen i'r cam hwn.

Esboniwyd bod yr archwilydd annibynnol yn gymwysiedig, profiadol ac yn llwyddo i ddelio gyda cymhlethdod achosion. Nodwyd bod prinder archwilwyr sydd yn siarad Cymraeg a bod hyn yn her i'r gwasanaeth ac yn creu oedi mewn ymchwiliadau gan bod angen sicrhau bod rhywun sydd yn gallu siarad Cymraeg ar gael i edrych drwy gwybodaeth a chyfweld unigolion. Manylwyd bod her yn codi wrth ganfod archwilwyr annibynnol sy'n siarad Cymraeg gan bod nifer ohonynt wedi bod yn gweithio yn lleol i'r ardal neu i Wynedd ei hun gan arwain at leihad yn y nifer o bobl sydd ar gael i gynnal ymchwiliadau.

Adroddwyd bod Swyddogion Cwynion ac Uwch Swyddogion Cwynion ar gael er mwyn hwyluso'r prosesau hyn. Pwysleisiwyd eu bod yn gweinyddu'r prosesau yn wrthrychol, er bod y gwasanaeth wedi ei leoli o fewn gwasanaethau cymdeithasol. Nodwyd bod y gwaith hwn yn gallu bod yn heriol oherwydd rhwystredigaeth ac anfodlonrwydd yr achwynwyr gyda'r gwasanaeth maent eisiau gwneud cwyn amdano.

Cyfeiriwyd at amserlenni gan nodi bod gan swyddogion 10 diwrnod i ymateb i gŵyn Cam 1 ac 25 diwrnod i ymateb i archwiliad annibynnol Cam 2. Eglurwyd bod yr Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant yn ymateb i 82% o gwynion Cam 1 yn amserol a'r Adran Plant a Chefnogi Teuluoedd yn llwyddo i ymateb i 92% ohonynt yn amserol.

Nodwyd bod yr Adrannau wedi dysgu rhai gwersi yn dilyn y trafodaethau ac archwiliadau i gwynion megis tensiynau gyda theuluoedd, gwrthdaro gyda phenderfyniadau ac anawsterau i ddarparu gofal. Cyfeiriwyd at rhai achwynwyr blinderus, sy'n parhau i fod yn anfodlon gyda'r sefyllfa yn dilyn yr ymatebion llawn gan nodi bod cynnydd i'w weld mewn niferoedd o fygythiadau. Ymhelaethwyd bod rhai unigolion yn llwyddo i ganfod gwybodaeth bersonol am aelodau staff a rhannu gwybodaeth ar gyfryngau cymdeithasol gan arwain at anhawster i gynnal cyswllt parhaus. Pwysleisiwyd bod gan y Cyngor bolisi i ddelio gydag achwynwyr blinderus gan nodi bod y trothwy i gael eu hadnabod fel 'achwynwyr blinderus' yn uchel iawn er mwyn sicrhau bod modd i achwynwyr gwyno os nad ydynt yn derbyn gwasanaeth dyledus.

Soniwyd bod y gwasanaeth hefyd yn delio gyda deddfwriaeth diogelu data, gan sicrhau bod ceisiadau gan unigolion a'r llysoedd yn cael eu delio gyda'n briodol. Nodwyd hefyd bod swyddogion yn delio gyda cheisiadau rhyddid gwybodaeth. Eglurwyd y derbyniwyd 316 o geisiadau yn yr Adran Plant a Chefnogi Teuluoedd ac 40 cais am wybodaeth gysylltiedig i'r Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant y llynedd a bod pwysau ar swyddogion i sicrhau bod y wybodaeth a rennir yn addas a derbyniol ar gyfer diben y ceisiadau.

Yn ystod y drafodaeth, cyflwynwyd y sylwadau a ganlyn:-

Trafodwyd y cwynion a chanlyniadau'r ymchwiliadau fel gwelwyd yn yr adroddiad gan nodi bod nifer ohonynt yn ddi-sail. Mewn ymateb i'r sylwadau, nododd y Pennaeth Cynorthwyol Diogelu ac Ansawdd bod y mwyafrif o gwynion a dderbynnir yn ddi-sail ond bod canfyddiadau o'i bryd i'w gilydd. Ymhelaethwyd bod rhai cwynion yn diweddu mewn canfyddiadau rhannol, ble mae rhai o'r pwyntiau a drafodwyd yn y cwyn yn cael eu cydnabod a rhai eraill yn ddi-sail. Pwysleisiwyd bod rhai cwynion yn nodi nad oes unrhyw wersi i'w dysgu gan fanylu y byddai hyn yn cael ei nodi ar gyfer unrhyw gwyn sydd gyda gweithdrefn briodol eisoes mewn lle. Nodwyd mai dim ond mewn sefyllfaoedd sydd yn codi o'r newydd bydd y gŵyn yn nodi bod gwersi i'w dysgu.

Derbyniwyd sylw bod posibilrwydd bod rhai defnyddwyr gwasanaeth yn anhapus gyda gwasanaethau a ddim yn dymuno cwyno a bod dim modd i'w hanwyliaid gwyno ar eu rhan, gan arwain ar niferoedd uwch o gwynion sydd methu cael eu cynnwys yn y data. Mewn ymateb, cadarnhaodd Pennaeth Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant bod yr adrannau yn cydweithio gydag unigolion mewn dull ataliol cyn i sefyllfaoedd cael eu huchafu fel cwyn. Eglurwyd bod hyn yn ddull effeithiol iawn o sicrhau bod pob person sydd yn defnyddio gwasanaethau yn hapus gydag o. Gobeithir bod unrhyw bryderon sydd gan ddefnyddwyr yn cael eu datrys yn y dull yma. Pwysleisiwyd bod y Cyngor yn cydymffurfio â holl reoliadau statudol ac eglurwyd yr angen i sicrhau eu bod yn cael eu glynu atynt. Anogwyd unrhyw un sydd ddim yn hapus gyda'r gwasanaethau maent yn ei dderbyn i ddod i gyswllt gyda'r adran er mwyn ei ddatrys.

**PENDERFYNWYD**

**Derbyn yr adroddiad gan nodi'r sylwadau a gyflwynwyd yn ystod y drafodaeth.**

**8. POLISI CODI TÂL AM OFAL**

Cyflwynwyd yr adroddiad gan yr Aelod Cabinet Oedolion, Iechyd a Llesiant, Pennaeth Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant a Rheolwr Prosiect, Tîm Arweinyddiaeth Corfforaethol.

Nodwyd mai bwriad yr adroddiad oedd rhoi cyfle i'r Aelodau blaen graffu addasiad i'r polisi cyn cynnal ymgynghoriad cyhoeddus a chyflwyno Adroddiad pellach i'r Cabinet am benderfyniad ffurfiol. Atgoffwyd bod yr Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant yn gorwario ar hyn o bryd ac yn bwriadu gwneud addasiadau i'r polisi hyn er mwyn cychwyn mynd i'r afael a'r heriau ariannol presennol.

Eglurwyd y gobeithir cael sylwadau'r Pwyllgor ar dair elfen o'r Polisi Codi Tâl am Ofal. Manylwyd bod y rhain yn cynnwys:

- Addasu'r polisi i ychwanegu gwasanaethau penodol sydd wedi bod am ddim yn hanesyddol megis Gofal Dydd, Gwasanaeth Cymorth Iechyd Meddwl a Gwasanaethau Cefnogol Dementia.
- Addasu'r geiriad sy'n diffinio gofalwyr di-dâl a gwneud y cymal ar ofalwyr di-dâl yn fwy eglur. Pwysleisiwyd nad yw'r Cyngor wedi bod yn codi ffi am ofal uniongyrchol i ofalwyr di-dâl ac argymhellwyd bod y polisi yn parhau i adlewyrchu hynny. Nodwyd yr angen i barhau i gefnogi gofalwyr di-dâl oherwydd ei bod yn lleihau'r baich ar wasanaethau cymdeithasol. Cydnabuwyd bod angen amlygu beth sydd ar gael am ddim i ofalwyr di-dâl ac argymhellwyd i beidio codi tal am unrhyw gefnogaeth sydd yn enw'r gofalydd. Ystyriwyd y dylid codi tâl am unrhyw wasanaeth ble mae elfen o ofal uniongyrchol neu anuniongyrchol i'r unigolyn sy'n derbyn cymorth, yn ddibynnol ar asesiad ariannol.
- Gweithredu ar ffioedd sydd eisoes o fewn y polisi ond lle nad ydi'r Cyngor wedi bod yn eu codi'n hanesyddol. Rhannwyd enghraifft o daliadau gohiriedig a ddefnyddir ble mae unigolyn yn mynd i gartref preswyl neu nyrsio ond nad ydynt yn gwerthu eu cartref. Eglurwyd bod costau gofal y person yn mynd yn erbyn eu heiddo ac y bydd y Cyngor yn ad-ennill y ffioedd gofal sydd wedi cronni pan fydd eu cartref yn cael ei werthu. Pwysleisiwyd bod y polisi yn caniatáu'r Cyngor i weithredu'r ffioedd hyn yn ogystal â ffioedd am weinyddu'r taliad a gwaith cyfreithiol. Cadarnhawyd nad yw'r cyngor yn codi llog ar y ffioedd disgwyliedig.

Nodwyd bod gan bob unigolyn yr hawl i gael asesiad am ofal. Manylwyd os yw'r asesiadau yn dangos nad oes ganddynt y modd i dalu, bydd y ffioedd yn cael eu heithrio. Eglurwyd bod uchafswm o £100 yr wythnos am ffioedd gofal wedi cael ei osod am ffioedd gofal i unigolion a phwysleisiwyd na fydd angen i neb dalu mwy na hynny am eu gofal.

Yn ystod y drafodaeth, cyflwynwyd y sylwadau a ganlyn:-

Nodwyd ei fod yn anodd gwneud penderfyniadau pendant ar y mater hwn heb dderbyn data manwl am y newidiadau y bwriedir ei wneud i'r polisi.

Ystyriwyd a yw'r uchafswm o £100 yn debygol o gynyddu i ddefnyddwyr. Mewn ymateb i'r sylwadau cadarnhaodd yr Aelod Cabinet Oedolion, Iechyd a Llesiant bod ffioedd yn ofynnol am wasanaethau gofal er mwyn sicrhau bod gwasanaethau yn parhau i gael eu darparu i'r dyfodol. Adroddwyd bod Llywodraeth Cymru wedi cynnal ymgynghoriad yn ddiweddar i gynyddu'r uchafswm o £100 i £125. Cadarnhawyd bod Llywodraeth Cymru yn cymeradwyo'r uchafswm newydd a nodwyd bydd Cyngor Gwynedd yn addasu uchafswm bydd unigolion yn talu am ofal i £125 er mwyn bod yn gyfartal â siroedd eraill. Tynnwyd sylw pellach mai dim ond ar gyfer gofal cartref mae'r uchafswm hwn yn weithredol gan fod y broses taliadau gohiriedig yn cael ei ddefnyddio ar gyfer gofal preswyl.

Gofynnwyd i'r Adran roi ystyriaeth benodol i godi tal ar unigolion sydd yn derbyn gwasanaethau gofal ar gyfer cyflyrau iechyd meddwl. Pwysleisiwyd pwysigrwydd cynnal y gwasanaethau hyn fel dull ataliol rhag anghenion dwysedd uwch i'r dyfodol a fyddai'n

fwy costus. Ystyriwyd byddai ymchwil i sicrhau bod pob unigolyn yn derbyn y budd-daliadau maent yn ei haeddu er mwyn cynorthwyo i dalu am wasanaethau gofal yn werthfawr iawn. Fodd bynnag, derbyniwyd byddai'r unigolion yn parhau i dderbyn y gwasanaethau os nad oes ganddynt fodd i'w ariannu oherwydd hawl pob unigolyn i dderbyn gofal.

Diolchwyd am y cyfle i gael rhoi ystyried i'r newidiadau hyn cyn i benderfyniadau ffurfiol cael eu cadarnhau. Gofynnwyd i'r Adran ddychwelyd gydag adroddiad pellach pan yn amserol er mwyn craffu'r polisi ymhellach.

**PENDERFYNWYD**

1. **Cytuno i'r egwyddor o ymchwil pellach i addasu'r polisi codi tâl am ofal.**
2. **Gofynnwyd am adroddiad mwy manwl yn cynnwys union ffioedd i'w codi a'r fframwaith codi tâl arfaethedig.**

Dechreuodd y cyfarfod am 10.30yb a daeth i ben am 13.20yp.

Cadeirydd

| | |
|---|---|
| **CYFARFOD** | Pwyllgor Craffu Gofal |
| **DYDDIAD** | 21 Tachwedd, 2024 |
| **TEITL** | Maes Tai Cymdeithasol |
| **RHESWM DROS GRAFFU** | Wedi'i gynnwys yn y ddogfen gweithdy blynyddol |
| **AWDUR** | Carys Fôn Williams, Pennaeth Tai ac Eiddo, a<br>Hedd Tomos, Pennaeth Cynorthwyol Tai ac Eiddo |
| **AELOD CABINET** | Cyng. Craig ab Iago |

## 1. Cyflwyniad a chyd-destun

1.1. Mae'r maes tai cymdeithasol wedi'i adnabod fel maes penodol i'w graffu, gyda chwestiynau penodol wedi'u rhoi gerbron yr Adran i'w hateb.

1.2. Cyflwynwyd dau adroddiad ar Bolisi Gosod Tai Gwynedd dros y blynyddoedd diwethaf – y naill yn Nhachwedd 2022, a'r llall ym Medi 2023. Gellir cyfeirio at yr adroddiadau hynny er cyd-destun ar gyfer y cyfarfod hwn.

1.3. Y tro hwn, mae gwahoddiad wedi'i estyn i'r Cymdeithasau Tai sy'n weithredol yng Ngwynedd, sef Adra, Clwyd Alyn, Grŵp Cynefin a Thai Gogledd Cymru, i ymuno â'r cyfarfod ac ateb cwestiynau'r Aelodau.

## 2. Ymateb i gwestiynau'r Aelodau

**1) Allwch chi atgoffa aelodau:**

- **Beth yw'r 'bandiau blaenoriaeth' yn y polisi gosod tai presennol?**
- **Beth yn union yw 'Cysylltiad Gwynedd' a sut mae unigolion gyda theuluoedd a chysylltiadau Gwynedd yn cael eu blaenoriaethu o fewn pob band?**
- **Pam nad yw'r Cyngor yn prynu hen dai cyngor tai gydag amod 106 arnynt?**

**"Beth yw'r 'bandiau blaenoriaeth' yn y polisi gosod tai presennol?"**

2.1. Mae'n ofyn statudol, yn unol ag adran 167 o Ddeddf Tai 1996, i bob awdurdod tai lleol yng Nghymru gael cynllun dyrannu tai (neu bolisi gosod tai) ar gyfer pennu blaenoriaethau a'r broses i'w dilyn wrth ddyrannu tai. Mae'r Ddeddf ac arweiniad statudol gan Lywodraeth Cymru yn pennu'r rheolau sydd rhaid eu dilyn wrth lunio a gweithredu'r polisi.

2.2. Ar 25 Mehefin 2019 penderfynodd Cabinet y Cyngor i fabwysiadu Polisi Gosod Tai newydd sydd yn blaenoriaethu anghenion ymgeiswyr ar sail eu gosod mewn band blaenoriaeth yn hytrach na'r sustem flaenorol o ddyfarnu pwyntiau i bob cais. Mae diffiniad o'r bandiau wedi ei gynnwys yn y tabl isod:

| Band | Graddfa o Angen Tai |
|---|---|
| Band 1 | a) Ymgeiswyr mewn Angen Tai Brys â chysylltiad Gwynedd |

| | |
|---|---|
| | b) Ymgeiswyr mewn Angen Tai Brys (heb gysylltiad Gwynedd) |
| Band 2 | Ymgeiswyr mewn Angen Tai â chysylltiad Gwynedd |
| Band 3 | Ymgeiswyr mewn Angen Tai heb gysylltiad Gwynedd ac Ymgeiswyr gyda blaenoriaeth is |
| Band 4 | Ymgeiswyr heb angen tai gyda chysylltiad Gwynedd. |

2.3. Bydd y band y mae ymgeisydd yn cael ei osod ynddo yn dibynnu ar eu hangen tai ac a oes ganddynt gysylltiad â Gwynedd neu beidio. Er mae'n bwysig nodi, ni chaiff ceisiadau heb angen tai a heb gysylltiad â Gwynedd eu cynnwys yn unrhyw un o'r bandiau blaenoriaeth ac fel canlyniad ni fydd ceisiadau o'r fath yn cael eu cofrestru.

2.4. Gellir gweld yr wybodaeth lawn am y bandiau blaenoriaeth yn rhan 3.5 o'r Polisi Gosod.

**<u>"Beth yn union yw 'Cysylltiad Gwynedd' a sut mae unigolion gyda theuluoedd a chysylltiadau Gwynedd yn cael eu blaenoriaethu o fewn pob band?"</u>**

2.5. Mae'n bosibl cael Cysylltiad Gwynedd am unrhyw un o'r canlynol:

- Byw yng Ngwynedd am 5 mlynedd (ar unrhyw adeg)
- Cyswllt teuluol yng Ngwynedd ers dros 10 mlynedd. Aelod o'r teulu gyda rhiant, plentyn sy'n oedolyn, brawd neu chwaer sy'n byw yn y sir, ac wedi gwneud am o leiaf 10 mlynedd, ar ddyddiad y gwnaed y cais. Rhaid i'r ymgeisydd a'r berthynas fod angen byw wrth ymyl ei gilydd
- Darparu cymorth neu dderbyn cymorth gan berson neu ddarpariaeth yng Ngwynedd
- Gweithio yng Ngwynedd am y 5 mlynedd ddiwethaf
- Wedi cael cynnig swydd yng Ngwynedd ond gydag anabledd ac nid oes modd derbyn y swydd oherwydd anhawster canfod llety hygyrch
- Angen symud i Wynedd fel y gall aelod o'r teulu sydd gydag anabledd fynychu ysgol neu gael cymorth arbenigol ond nid oes modd gwneud hynny oherwydd anhawster dod o hyd i dai hygyrch
- Yn gwasanaethu yn y Lluoedd Arfog yng Ngwynedd
- Yn gyn-aelod o'r Lluoedd Arfog, nad yw mewn cyflogaeth neu'n byw yng Ngwynedd ar hyn o bryd a wasanaethodd yng Ngwynedd tra'r oedd yn y Lluoedd

2.6. Dylid hefyd gadw mewn cof fod gofynion a dyletswyddau statudol ar y Cyngor o safbwynt ymgeiswyr sy'n ddigartref lle na ellir ystyried cysylltiad lleol fel ffactor wrth osod. Yn benodol felly mewn achosion o ffoi trais neu fygythiadau o drais gan gynnwys trais yn y cartref.

2.7. Er hyn, mae'r data diweddaraf yn dangos bod 97% o'r gosodiadau i dai cymdeithasol yn cael eu gwneud i berson â chysylltiad â Gwynedd, ac mae hwn yn batrwm sydd i'w weld yn gyson dros y ddwy flynedd ddiwethaf. Roedd y ffigwr cyfatebol pan roedd y Polisi blaenorol yn cael ei ddefnyddio yn 90%, felly mae yna gynnydd sylweddol a nodedig wedi bod o ganlyniad i weithrediad y Polisi presennol.

2.8. Mae'r Polisi hefyd yn cynnwys haen ychwanegol o 'gysylltiad lleol' ar ffurf cysylltiad ymgeisydd gyda chymuned. Bydd ymgeisydd sydd wedi byw am 5 mlynedd mewn ardal Cyngor Cymuned lle mae'n dymuno symud iddo yn ymddangos yn hanner uchaf ei fand blaenoriaeth, uwchlaw ceisiadau yn yr un band sydd heb y cysylltiad cymuned. Mae hyn yn atgyfnerthu'r cyfle i bobl gael eu cartrefu yn eu hardal leol.

2.9. Trwy edrych ar sampl cynrychioladol o'r gosodiadau tai diweddar, gwelwn fod 62.5% o denantiaid newydd â chysylltiad cymuned. Os edrychwn ar y nifer oedd â chysylltiad â chymuned sy'n ffinio â'r gymuned lle mae nhw wedi eu cartrefu, mae'n codi i 71.5%. Os

edrychwn wedyn ar yr ardal ehangach, h.y. Arfon, Dwyfor a Meirionnydd, mae'r ffigwr yn codi i 88%.

2.10. O ystyried y galw naturiol sydd gan nifer o drigolion i symud o un ardal i un arall, a'r argaeledd, neu ddiffyg, o fathau arbennig o lety ymhob cymuned, mae'r ffigyrau hyn yn arwyddocaol ac yn brawf bod y Polisi yn blaenoriaethu pobl leol ble bynnag fo'n bosibl o fewn y gyfraith a'r pwerau sydd gan y Cyngor.

2.11. O ran sut blaenoriaethir y ceisiadau o fewn y bandiau, bydd gan geisiadau sy'n ymddangos ym mandiau 1A, 2 a 4 gysylltiad Gwynedd, ac er bod band 3 yn cynnwys ymgeiswyr mewn angen tai ond heb gysylltiad Gwynedd, bydd cyfran helaeth o'r ceisiadau sydd ym mand 3 yno oherwydd bod eu blaenoriaeth wedi ei leihau o fand 1A a 2.

**<u>"Pam nad yw'r Cyngor yn prynu hen dai cyngor tai gydag amod 106 arnynt?"</u>**

2.12. Fel rhan o Gynllun Prynu i Osod y Cyngor (sy'n rhan o'r Cynllun Gweithredu Tai), mae'r Cyngor yn mynd ati i brynu tai oddi ar farchnad agored (gan gynnwys prynu cyn dai cymdeithasol) er mwyn eu gosod i bobl leol sydd mewn angen tai.

2.13. Hyd yma mae 32 o dai wedi'u prynu, a 10 ohonynt wedi'u gosod i ymgeiswyr ar gofrestr Tai Teg.

2.14. Mae gan dai sydd ag amod 106 arnynt eisoes warchodaeth ar gyfer pobl Gwynedd, ac o'r herwydd, nid ydym yn cyfyngu ein pryniannau i'r math yma o dai yn unig, gan fod cyfleoedd ychwanegol ar gael i drigolion Gwynedd o brynu tai heb gyfyngiadau cyfredol arnynt.

2.15. Mae'n bwysig nodi hefyd ein bod yn gofalu nad ydym yn cystadlu yn erbyn trigolion lleol ar gyfer prynu eiddo, ac os cawn wybod am ddiddordeb lleol, byddwn yn tynnu'n ôl o'r pryniant yn syth.

**2) Allwch chi ddarparu gwybodaeth a data (fesul ward neu Gyngor Cymuned) sy'n dangos a yw pobl leol yn elwa ai peidio o ganlyniad i'r polisi gosod tai? Oes modd cael cymharu data gyda'r hen system bwyntiau i weld sut mae'r system newydd bandio yn cymharu?**

2.16. Fel sydd eisoes wedi'i ddweud, mae 97% o osodiadau eiddo cymdeithasol yn mynd i ymgeiswyr sydd â "Chysylltiad Gwynedd" fel sydd wedi'i ddiffinio yn y Polisi (<u>rhan 3.1 o'r Polisi Gosod</u>).

2.17. Mae'r Polisi hefyd yn rhoi blaenoriaeth ar sail preswyliad mewn ardal Cyngor Cymuned a hyn sy'n penderfynu os yw ymgeisydd yn ymddangos yn hanner uchaf neu hanner isaf y band. Y maen prawf yw preswyliad am 5 mlynedd, naill ai'n gyfredol, yn flaenorol, neu gyfuniad o'r ddau, yn ardal y Cyngor Cymuned lle mae nhw'n cael eu cartrefu.

2.18. Oherwydd natur y data a'r ffordd y'i cofnodir ar hyn o bryd, byddai'n eithriadol o anodd echdynnu'r wybodaeth ar gyfer pob un gosodiad sydd wedi'i wneud. I wneud hyn, byddai'n rhaid gwirio manylion pob un cais gan ymgeisydd/ymgeiswyr sydd wedi'u cartrefu trwy'r gofrestr a chanfod beth oedd eu cysylltiad â'r gymuned lle maen nhw wedi

eu cartrefu ynddi fesul un, a fyddai'n cymryd amser sylweddol swyddogion. Fodd bynnag, er mwyn ymateb i'r cwestiwn, craffwyd sampl ar hap o 200 o geisiadau. Credwn fod sampl o'r maint hwn yn rhesymol ac yn ddibynadwy, ac o'r herwydd, bod y canlyniadau yn rhai cynrychioliadol o'r gofrestr yn ei chyfanrwydd.

2.19. O'r sampl, fel sydd eisoes wedi'i nodi, gwelwn fod 62.5% o denantiaid newydd â chysylltiad cymuned. Os edrychwn ar y nifer oedd â chysylltiad â chymuned sy'n ffinio â'r gymuned lle mae nhw wedi eu cartrefu, mae'n codi i 71.5%. Os edrychwn wedyn ar yr ardal ehangach, h.y. Arfon, Dwyfor a Meirionnydd, mae'r ffigwr yn codi i 88%.

2.20. Mae'n bwysig nodi bod sawl ffactor sy'n dylanwadu'r angen i symud rhwng cymunedau, ac mae'r rhain yn cynnwys:

- Pobl sy'n ddigartref ac yn byw mewn eiddo dros dro sy'n anaddas
- Angen symud i roi neu i dderbyn cefnogaeth teulu
- Angen symud am resymau cyflogaeth
- Angen symud am resymau addysg
- Angen symud am resymau cymdeithasol gan gynnwys bod yn destun ymddygiad gwrth gymdeithasol
- Diffyg eiddo addas ar gyfer rhai categorïau o ymgeiswyr o fewn eu cymuned yn golygu bod rhaid symud i gymuned arall er mwyn i'w anghenion gael eu cyfarch, e.e.:
    - Eiddo ar gyfer pobl hŷn e.e. byngalos wedi eu dynodi'n arbennig
    - Eiddo efo cefnogaeth e.e. eiddo gwarchod efo gwasanaeth cefnogi
    - Eiddo i bobl sengl e.e. fflatiau
    - Eiddo ar gyfer teuluoedd mawrion e.e. tai 5, 6 neu fwy o ystafelloedd gwely
    - Eiddo ar gyfer anghenion corfforol e.e. eiddo wedi'i addasu neu adeiladu'n bwrpasol

2.21. Gyda 97% o osodiadau yn mynd i berson lleol (sydd â chysylltiad Gwynedd), ac ymhellach, a 62.5% yn mynd i berson â chysylltiad cymuned, ac uwch o edrych ar wardiau cyfagos, credwn fod hyn yn profi bod y Polisi cyfredol yn llwyddiannus yn sicrhau bod pobl Gwynedd yn cael pob chwarae teg gyda gosodiadau tai cymdeithasol.

2.22. O gymharu hyn â'r 'system bwyntiau' oedd yn weithredol cyn y system bandio sydd yn y Polisi cyfredol, roedd y ganran o osodiadau oedd yn mynd i bobl â chysylltiad lleol yn 90%.

## 3. Ystyriaethau pellach

3.1. Ddiwedd 2023, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru Bapur Gwyn ar Roi Diwedd ar Ddigartrefedd yng Nghymru, sy'n cynnwys argymhellion allai gael effaith sylweddol ar ein Polisi Gosod Tai.

3.2. Mae'r Cyngor eisoes wedi rhannu ymateb gyda'r Llywodraeth i nodi cefnogaeth mewn egwyddor i gyfeiriad y Papur Gwyn, ond rydym hefyd yn amlygu pryderon sylweddol gyda'r adnoddau (dynol ac ariannol) sydd ynghlwm â gweithredu'r newidiadau arfaethedig, yn ogystal â phryderon am rai elfennau penodol megis cyswllt lleol, newidiadau i'r prawf bwriadoldeb ac ati. Gellir darllen yr adroddiad a gyflwynwyd gerbron y Cabinet ynghyd ag ymateb swyddogol y Cyngor i'r ymgynghoriad yma (eitem 8).

## 4. Camau nesaf

4.1. Pan fyddwn yn derbyn eglurder ar fanylion a chyfeiriad y Llywodraeth yn dilyn cyhoeddi'r Papur Gwyn ar Roi Diwedd ar Ddigartrefedd yng Nghymru, byddwn yn adolygu'r effaith gaiff hynny ar ein Polisi presennol, ac yn mynd trwy'r broses adolygu sydd ynghlwm â hynny.

**Pwyllgor Craffu Gofal (Cyngor Gwynedd) 21.11.24**

**Cwestiynau i'r gofyn i'r Cymdeithasau Tai**

Gweithredu'r polisi gosod tai

- Ydych chi fel cymdeithas tai yn gweithredu yn unol â'r Polisi Gosod Tai Cyffredin Cyngor Gwynedd bob amser? Os ydych yn gwyro o'r polisi pa mor aml mae hyn yn digwydd a pham?
- Sut ydych chi fel cymdeithas tai yn cydweithio gyda chymdeithasau tai eraill yng Ngwynedd?

Rhestr aros

- Beth yw eich rhesymau dros ofyn am wahardd rhai pobol oddi ar y rhestr aros?
- Ydych chi'n osgoi cynnig eiddo i rai enwau sydd ar y rhestr aros? Os ydych chi'n gwneud hyn, beth yw'r rheswm fel arfer?

Cyfnewid tai

- Beth yw'r rheolau ynglŷn â chyfnewid tai? Oes rhaid i denantiaid ymrwymo i rentu am gyfnod penodol wrth arwyddo'r cytundeb cyn gwneud cais am gyfnewid eiddo?
- Beth yw eich proses ar gyfer rheoli tenantiaid sy'n dymuno cyfnewid tŷ/eiddo i un arall?
- A oes data gan eich cymdeithas dai am y nifer sydd wedi cyfnewid tai yn y 3 blynedd diwethaf a'r lleoliadau cyfnewid? (Managed Moves/House Swaps).
- A oes modd cael gwybod faint o bobl gyda chyswllt lleol sydd wedi cyfnewid tŷ er mwyn symud yn ôl i Wynedd i fyw?

Cymorth i denantiaid, tan feddiannu a digartrefedd

- Sut ydych yn rheoli tân feddiannu? Ydy cyfnewid eiddo o ganlyniad i dan feddiannu yn gyffredin?
- Faint o denantiaid sydd wedi cyfnewid eiddo o ganlyniad i dân feddiannu yn ystod y flwyddyn ddiwethaf?
- Pa fath o gefnogaeth sy'n cael ei roi i bobl er mwyn atal digartrefedd?
- Faint o swyddogion cymunedol sydd gan eich cymdeithasau tai er mwyn cynorthwyo tenantiaid ar lawr gwlad?

Ansawdd tai a gwaith cynnal a chadw

- Beth yw ansawdd eich tai yng Ngwynedd a pha gynlluniau sydd ar waith i'w cynnal a'u gwella?
- Ydy eich gwasanaeth cynnal a chadw eiddo ar gael yn gyson trwy'r sir ac a yw'r amser aros am atgyweiriadau a thrwsio yn amrywio drwy'r sir?
- Beth yw cyfartaledd mae rhaid i denant ddisgwyl am gael gwneud gwaith atgyweirio yn eu tŷ?

- Pa fath o bethau sydd fel arfer yn arwain at oedi cyn gwneud gwaith atgyweirio?
- Ydych chi'n blaenoriaethu atgyweiriadau mewn tai lle mae pobol fregus yn byw?
- Sut ydych chi'n diffinio gwaith sydd angen ei atgyweirio ar frys?
- A ydych chi yn ffyddiog bod eich timau cynnal a chadw yn gweithredu yn y ffordd fwyaf effeithlon?
- Faint o dai hygyrch sydd gan y cymdeithasau tai?
- A oes gan gymdeithasau tai system o wneud addasiadau er mwyn gwneud tai yn hygyrch?

Tai gwag a phrynu tai

- Faint o dai gwag sydd gan eich cymdeithas dai ar hyn o bryd?
- Beth yw eich amserlen arferol ar gyfer dod a thŷ gwag yn ôl i ddefnydd?
- Beth yw eich polisi ynglŷn â gwaredu tai? Oes tai wedi eu gwaredu?
- A oes gan eich cymdeithas dai bolisi ynglŷn â phrynu hen dai Cyngor er mwyn eu rhentu i denantiaid? Ydych chi wedi prynu hen dai Cyngor yn y 3 blynedd diwethaf ac a oes bwriad i brynu mwy?

Cyfathrebu a chwynion

- Mae gan gymdeithasau tai ffurflenni a rheolau gwahanol ar gyfer tenantiaid/darparu tenantiaid sy'n gallu bod yn ddryslyd. A wnewch chi ystyried defnyddio'r un math o ffurflenni a rheolau?
- Faint o gwynion ydych chi wedi ei dderbyn a sut ydych yn delio efo nhw? Beth yw eich amserlen i ddelio gyda chwynion?
- Mae cynghorwyr yn cael nifer o ymholiadau a chais am gymorth gan etholwyr ynghylch tai cymdeithasol. Yn aml nid yw'r wybodaeth ddiweddaraf wedi ei rannu gyda chynghorwyr. Pa gynlluniau sydd ar waith i wella cyfathrebu gyda chynghorwyr?
- Os yw aelod o'r cyhoedd yn dymuno cwyno am denant gan eu bod wedi torri amodau cytundeb beth yw'r drefn gwyno?